

Archwiliad Dechrau o Hedyn


Mae'r holl ffrwythau a llysiau rydym ni'n eu bwyta yn dechrau fel hedyn bach iawn. Felly hefyd y dechreuodd yr holl goed a phlanhigion o'n cwmpas, sy'n gwneud ein planed yn lle mor arbennig i fyw.

Mae hadau angen rhai pethau pwysig i'w helpu i dyfu'n blanhigion cryf, yn union fel ni. Maen nhw angen pridd, dŵr a golau haul.

Mae pobl ledled y byd yn tyfu'r bwyd rydym ni'n ei fwyta. Mae rhai pobl yn tyfu bwyd mewn ffyrdd sy'n helpu natur, ond weithiau mae bwyd yn cael ei dyfu mewn ffyrdd sy'n ei niweidio. Gallwn edrych am labeli arbennig sy'n ein helpu i wybod pa fwydydd sy'n helpu natur.




cadwch keep
gymru'n wales
daclus tidy



Ceisiwch ateb y cwestiynau yn y tabl

Ydych chi'n tyfu unrhyw ffrwythau neu lysiau yn eich lleoliad?	YDYM 😊	NAC YDYM ☹️
Ydych chi'n tyfu unrhyw berlysiau y gellid eu defnyddio ar gyfer coginio?	YDYM 😊	NAC YDYM ☹️
Ydych chi erioed wedi tyfu unrhyw blanhigion neu flodau o hadau?	YDYM 😊	NAC YDYM ☹️
Ydych chi erioed wedi ymweld â fferm leol neu le tyfu i weld o ble mae eich bwyd yn dod?	YDYM 😊	NAC YDYM ☹️
Oes gennych chi gynhwysydd i gasglu dŵr glaw a'i ddefnyddio i ddyfrio'r planhigion?	OES 😊	NAC OES ☹️
Ydych chi erioed wedi blasu'r ffrwythau, llysiau, neu berlysiau sy'n cael eu tyfu yn eich lleoliad neu wedi'u tyfu'n lleol?	DO 😊	NA ☹️
Ydych chi'n archwilio ac yn gweld pa hadau y gallwch ddod o hyd iddynt ym myd natur?	YDYM 😊	NAC YDYM ☹️
Allwch chi ddod o hyd i unrhyw un o'r labeli hyn ar fwyd neu ddiodydd yn eich lleoliad? (Gallech edrych ar de a choffi'r oedolion yn ogystal ag yn y gegin.)	GALLWN 😊	NA ☹️



Os oes gennych chi unrhyw atebion gyda wynebau trist, meddyliwch am beth allech chi ei newid yn eich lleoliad i'w gwneud yn wynebau hapus?

Beth ydym ni am ei newid?	Sut fyddwn ni'n ei newid?	Pa wahaniaeth wnaethom ni ar ôl i ni wneud y newid?